Canllaw Porc o Gymru

Dyma rai syniadau i chi am ba doriadau porc i'w dewis ar gyfer amrywiaeth o ddulliau coginio.

PORC .WALES

Adnabod eich toriadau Porc

Coes

Fe gynhyrchir amrywiaeth eang o doriadau i'w rhostio o'r goes. Rhennir y cig yn aml yn gyhyrau gwahanol ac o'r rheiny daw amrywiaeth o stêcs a stribedi tro-ffrio ar gyfer coginio cyflym.

Lwyn Ganol/Ffiled

Y lwyn ganol (neu ffiled) o borc yw'r darn blasus sy'n rhedeg drwy'r lwyn. Mae'r darn yma'n dda i'w farinadu a dylid ei goginio'n gyflym ar gril, ei rostio, ei serio neu wedi ei sleisio a'i dro-ffrio.

Siancen

Mae cig sianc yn goch gyda chyfran uchel o feinwe cysylltiol. Mae toriad o'r rhan yma'n addas ar gyfer dulliau coginio araf fel stiw, caserol, cawl a stoc.

Ysgwydd

Fel arfer yn cael ei rhostio, mae'r ysgwydd yn hawdd i'w pharatoi. Mae braster y cig yn rhoi blas gwych iddo ac mae'n aros yn frau wrth ei goginio. Rhwbiwch halen y môr i mewn i'r cig i gael crofen anhygoel. Mae'n ddarn o gig y gellir ei ddefnyddio mewn pob math o ffyrdd, ac mae'n berffaith ar gyfer stêcs, darnau o gig, neu wedi'i goginio'n araf i greu porc wedi'i dynnu oddi ar yr asgwrn.

Pen Bras/Ffolen

Mae'r pen bras wedi'i leoli yng nghefn y lwyn. Nid yw stêcs pen bras (gelwir yn ffolen weithiau) yn cynnwys asgwrn, mae nhw'n lletach a chochach na'r rhai o'r lwyn.

Lwyn

Mae'r lwyn yn doriad amlbwrpas a choch iawn. Mae pob toriad o'r lwyn yn addas ar gyfer grilio neu ffrio.

Gwddf/Coler

Mae rhai'n dweud bod y darn rhataf hwn yn berffaith ar gyfer cawl, stoc a stiwiau. Mae tipyn o gyhyr ynddo ond mae'n flasus yr un fath, ac yn creu ansawdd suddlon hyfryd. I'w rostio, dylech ei goginio'n araf ar wres isel.

Bola

Bola'r mochyn yw un o'r darnau porc mwyaf poblogaidd a phwysicaf. O facwn i selsig a sbaribau, y bola yw darn mwyaf ffrwythlon y mochyn. Mae'n cynnwys mwy o fraster, a gellir ei dorri'n fân ar gyfer ffrio, ei ddefnyddio ar gyfer stêcs a'i rolio ar gyfer ei rostio.

Morddwyd

Darn digon rhad sy'n dod o goes y mochyn, dan y ben-lin. Gallwch ei brynu wedi neu heb ei gochi, ac mae'n ddelfrydol ar gyfer stiwiau a chawl. Mae'n ddarn mwy gwydn o gig, felly mae'n well ei goginio'n araf ar wres isel.

Asennau Bras

Mae asennau breision ychydig yn fwy na darnau eraill o asennau ac yn cynnwys mwy o gig hefyd. Y ffordd orau o'u paratoi yw eu coginio'n araf ar wres isel tan eu bod nhw'n frau ac yn llawn sudd. Gallwch roi'ch stamp eich hun ar eich seigiau trwy farineiddio'r cig, ond cofiwch frwysio'r asennau wrth eu coginio er mwyn eu cadw'n suddlon.

Briwgig

Fe gynhyrchir briwgig porc gan ddefnyddio cig o'r chwarter blaen fel coler ac ysgwydd. Mae'n ardderchog i'w ddefnyddio mewn pelenni cig, koftas, a chyri.